RHIFYN 09 • HYDREF 2024

# CYLCHLYTHYR CARFAN GOFAL PLANT RhCT

# SHWMAE A CHROESO

## I RIFYN YR HYDREF O'N CYLCHLYTHYR.

Gobeithio bod y flwyddyn ysgol newydd yn mynd yn dda hyd yma. Cysylltwch os oes gyda chi unrhyw ymholiadau neu awgrymiadau ar gyfer ychwanegiadau yn y dyfodol.

## Dyma'r garfan

Rydyn ni'n griw bach, ond yn cefnogi mwy na 200 o leoliadau gofal plant yn Rhondda Cynon Taf rhyngom. Ni sydd hefyd yn gyfrifol am ymdrin ag ymholiadau o ran y Cynnig Gofal Plant gan ddarparwyr gofal plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes angen unrhyw beth arnoch chi.

**Denise Humphries**

Mae Denise yn rheoli'r garfan ac yn gyfrifol am gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant ar ran Cynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. Hi sydd hefyd yn gyfrifol am yr holl ddatblygiadau strategol o ran gofal plant, fel yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a phrosiectau cyfalaf sy'n gysylltiedig â gofal plant.

### Carfan Datblygu Gofal Plant Cyffredinol:

**Sian Wood**

Mae Sian yn arwain y garfan Datblygu Gofal Plant Cyffredinol. Mae modd iddi hi roi cymorth i chi gyda phob agwedd ar eich busnes a materion hyfforddiant. Mae hi hefyd yn arwain ar y gwaith o ddatblygu darpariaeth newydd mewn meysydd lle mae angen.

**Rachael Holley a Cerys Harvey-Judd**

Mae Rachael a Cerys yn rhoi cymorth ar bob agwedd ar ddatblygiad gofal plant, megis trefnu hyfforddiant, rhoi cymorth gyda chofrestru ag AGC a helpu lleoliadau i wella/ehangu eu busnesau. Mae Rachael hefyd yn arwain ar ddiweddaru ein tudalen Facebook.

### Carfan Cynnig Gofal Plant Cymru:

**Rhys Picton, Cathryn Williams ac Ann Evans**

Mae Rhys, Cath ac Ann yn ymdrin â phob agwedd ar weinyddu'r Cynnig Gofal Plant gan gynnwys ceisiadau gan rieni ac ymholiadau gan ddarparwyr. Maen nhw'n gyfrifol am drefnu hyfforddiant gloywi i ddarparwyr ac ymgysylltu â rhieni. Maen nhw hefyd yn gweithio gyda Darparwyr Addysg Cofrestredig a'r gwasanaeth derbyn disgyblion i ddyrannu plant i leoedd cyn oed meithrin. O fis Medi 2024, Cath fydd yn arwain y gwaith gyda Darparwyr Addysg Cofrestredig cyfrwng Saesneg ac Ann fydd yn arwain y gwaith gyda Darparwyr Addysg Cofrestredig cyfrwng Cymraeg.

## Y newyddion diweddaraf am y garfan gofal plant

**Croeso'n ôl i Sian Wood, ein Swyddog Datblygu Gofal Plant, yn dilyn ei chyfnod mamolaeth.**

Yn ystod tymor yr haf, dechreuodd y garfan ymweld â lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd gwirio iechyd busnes. Dyma gyfle i chi ddweud wrthyn ni pa heriau sy'n eich wynebu, beth sy'n mynd yn dda a beth mae modd i ni ei wneud er mwyn eich helpu i redeg eich busnesau yn y modd mwyaf effeithiol. Mae hyn hefyd yn gyfle i ni gwrdd â chi, ac i chi ddod i'n hadnabod. Eu nod yw ein helpu ni i'ch helpu chi. Byddwn ni'n ymweld â chynifer o leoliadau â phosibl yn ystod tymor yr hydref, felly byddwch yn amyneddgar a byddwn ni'n cysylltu â chi'n fuan. Pe hoffech chi drefnu ymweliad ar adeg benodol, rhowch wybod ac fe wnawn ni ein gorau i drefnu hynny.

Mae cynllun gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2024/25. Bydd yn canolbwyntio ar gefnogi'r WESP drwy ddenu rhagor o blant i wasanaethau gofal plant Cymraeg. Byddwn ni hefyd yn parhau i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes gofal plant ac yn meithrin cysylltiadau ag ysgolion a cholegau. Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.rctcbc.gov.uk.

Rydyn ni wedi llunio'r amserlen derfynol ar gyfer ymweld â grwpiau o rieni yn nhymor yr hydref. Mae modd i ni roi gwybodaeth i rieni am y Cynnig Gofal Plant, sut i ddod yn warchodwr plant, neu eu cyfeirio at wasanaethau eraill sy'n ymwneud â'r teulu. Rydyn ni'n awyddus i ymweld â grwpiau newydd felly os ydych chi'n rhedeg grŵp Rhiant a Phlentyn/Ti a Fi, cysylltwch â ni a byddwn ni'n eich ychwanegu at ein hamserlen. Caiff amserlen o'n hymweliadau ei rhannu ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol bob mis.

# Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Cofiwch fod angen i'r newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol gael eu rhoi ar waith erbyn mis **Tachwedd 2024**.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cymorth Cyntaf**
  Y gymhareb newydd yw y dylai 1 aelod o staff i bob 10 plentyn feddu ar Dystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig 12 Awr. Os oes unrhyw staff yn cael eu gadael i ofalu am blant ar eu pennau eu hunain (h.y. Cynorthwywyr Gwarchod Plant) bydd angen tystysgrif 12 Awr arnyn nhw hefyd.
- **Cynorthwywyr Gwarchod Plant**
  **RHAID** i unrhyw Gynorthwy-ydd sy'n gweithio mewn lleoliad gwarchod plant gwblhau eu Cyflwyniad i Ofal Plant yn y Cartref. Os yw Cynorthwy-ydd yn gweithio'n wirfoddol yn eich lleoliad, bydd angen iddo gwblhau'r uned Cyflwyniad i Ofal Plant yn y Cartref er mwyn parhau i gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae gyda ni becyn ariannu ar gael ar gyfer Cynorthwywyr Gwarchod Plant yn Rhondda Cynon Taf. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.
- **Diogelu**
  Mae gofynion newydd o ran hyfforddiant Diogelu, gan ddibynnu ar eich swydd yn y lleoliad gofal plant:

  Grŵp A – Rhaid i **BOB** aelod o staff sy'n gweithio mewn lleoliad gofal plant, ond sydd ddim yn gweithio'n uniongyrchol â'r plant (Swyddogion gweinyddol, Glanhawyr, Cynhalwyr/Gofalwyr, Aelodau Pwyllgor ac ati) gwblhau cwrs hyfforddi **Grŵp A**.

  Grŵp B – Rhaid i **UNRHYW** aelod o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r plant gwblhau cwrs hyfforddi **Grŵp B**.

  Grŵp C – Rhaid i **UNRHYW** aelod o staff sydd â chyfrifoldebau rheoli (Gofalwyr Plant, Rheolwyr Meithrinfa, Personau â Gofal ac Unigolion Cyfrifol, ac ati.) gwblhau cwrs hyfforddi Grŵp C.

Os oes angen i staff gwblhau sesiwn Grŵp C ond heb fod ag unrhyw brofiad o Ddiogelu, argymhellir iddyn nhw fynychu sesiwn Grŵp B yn gyntaf cyn symud ymlaen i gwrs Grŵp C.

# Arolwg boddhad darparwyr

Rydyn ni wedi lansio ein harolwg boddhad darparwyr blynyddol. Bydd modd i chi gyflwyno ymateb hyd at ddydd Gwener 22 Tachwedd a bydd yn gyfle i chi roi adborth ar lwyddiant y garfan eleni, gan nodi beth sydd wedi gweithio'n dda a beth mae modd i ni ei wneud i wella. Defnyddiwch y cyfle yma i'n helpu er mwyn gwella'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu ar eich cyfer chi. Ewch i **https://RCTCBC.welcomesyourfeedback.net/childcare_team_satisfaction_survey** er mwyn llenwi'r arolwg, neu mae modd i chi gadw llygad am e-bost gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, a fydd yn cynnwys dolen i'r arolwg.

# Gweithdy Dewisiadau Gyrfa mewn Gofal Plant

Mae ein gweithdai Dewisiadau Gofal Plant i oedolion a phobl ifainc sydd â diddordeb mewn gyrfa yn y sector gofal plant yn boblogaidd o hyd. Rydyn ni wedi creu fideos byr i'w defnyddio yn yr achlysuron yma, gan arddangos yr amrywiaeth o leoliadau gofal plant sydd ar gael i weithio ynddyn nhw. Diolch yn fawr iawn i'r lleoliadau a gytunodd i gymryd rhan yn y fideos yma. Pe hoffai unrhyw un fwrw golwg arnyn nhw, ewch i www.rctcbc.gov.uk/CarfanGofalPlant (cliciwch ar Gwybodaeth i Rieni a Gwarcheidwaid).

Cafodd ein gweithdy olaf ei gynnal ar 15 Hydref yn YMa Pontypridd. Pe hoffech chi gymryd rhan yn ein hachlysuron, naill ai drwy gyflwyno i'r grŵp, cynnig lleoliad gwaith neu gyfleoedd prentisiaeth, cysylltwch â ni.

# Hyfforddiant

**Mae bellach modd cadw lle ar ein rhaglen hyfforddi ar gyfer tymor yr Hydref/Gaeaf. Diolch i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae modd i ni gynnig cyrsiau Diogelu a Chymorth Cyntaf ychwanegol, i'ch helpu chi i baratoi ar gyfer y newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at yr amserlen dros y misoedd nesaf.**

Cofiwch roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl os ydych chi wedi cadw lle ar gwrs ac nad oes modd i chi fod yn bresennol mwyach. Bydd modd i ni gynnig y lle hwnnw i rywun arall. Mae'n broblem fawr o hyd pan nad yw pobl yn mynd i sesiynau, mae'n gwastraffu arian ac yn golygu ei bod hi ddim yn bosibl dangos bod angen yr hyfforddiant yma a ariennir gan y sector. Mae cyflwyno cyfyngiadau llymach ar ddiffyg presenoldeb wedi cael effaith gadarnhaol ar ffigurau presenoldeb, ond mae rhagor o waith i'w wneud. Cofiwch – os nad yw aelod o staff yn bresennol, heb amgylchiadau eithriadol, fydd dim modd i unrhyw aelod o staff o'r lleoliad y maen nhw'n gweithio ynddo gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant a gynigir gan y garfan gofal plant am gyfnod o 2 fis.

Pe hoffech chi ragor o wybodaeth am ein hyfforddiant neu os oes gyda chi unrhyw sylwadau o ran pa fath o hyfforddiant a allai fod o gymorth i chi, cysylltwch â ni: **carfangofalplant@rctcbc.gov.uk**.

**Cynnig Gofal Plant Cymru**
**Childcare Offer for Wales**

**Rydyn ni unwaith eto'n cynnig hyfforddiant gloywi i'n darparwr y tymor yma. Bydd y sesiynau ar-lein yma'n anffurfiol ac yn ymdrin â'r prif faterion sy'n wynebu rhieni a darparwyr o ran y system genedlaethol. Byddan nhw hefyd yn rhoi cyfle i chi ofyn cwestiynau i'r garfan. Mae'r amserlen ar gyfer y flwyddyn isod ond mae hefyd ar gael yma: www.rctcbc.gov.uk/cynniggofalplant (cliciwch ar Gwybodaeth i Ddarparwyr).**

| Dyddiad | Amser | Cadw lle |
|---|---|---|
| **Dydd Iau 12 Rhagfyr 2024** | **6.00pm-7.00pm** | https://www.eventbrite.co.uk/e/childcare-offer-provider-refresher-training-12th-december-tickets-1010363172447?aff=oddtdtcreator |
| **Dydd Mercher 5 Chwefror 2025** | **6.00pm-7.00pm** | https://www.eventbrite.co.uk/e/childcare-offer-provider-refresher-training-5th-february-tickets-1010368729067?aff=oddtdtcreator |
| **Dydd Gwener 4 Ebrill 2025** | **1.30pm-2.30pm** | https://www.eventbrite.co.uk/e/childcare-offer-provider-refresher-training-4th-april-tickets-1010370474287?aff=oddtdtcreator |
| **Dydd Mawrth 10 Mehefin 2025** | **6.00pm-7.00pm** | https://www.eventbrite.co.uk/e/childcare-offer-provider-refresher-training-10th-june-tickets-1010372089117?aff=oddtdtcreator |
| **Dydd Mercher 16 Gorffennaf 2025** | **10.30am-11.30am** | https://www.eventbrite.co.uk/e/childcare-offer-provider-refresher-training-16th-july-tickets-1010375328807?aff=oddtdtcreator |

Yn ogystal â'r hyfforddiant gloywi, dyma'ch atgoffa:

- **Mae cyllid yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau. Serch hynny, mae modd i chi wneud cais bob wythnos, a bydden ni'n eich annog chi i wneud hyn.**
- **Unwaith y byddwn ni wedi cymeradwyo hawliadau rhieni, mae'n rhaid sefydlu cytundeb ar y system gyda chi ar gyfer yr oriau tymor a gwyliau sydd wedi'u cytuno. Rhaid iddyn nhw wneud hyn erbyn y dydd Sul bob wythnos er mwyn gallu hawlio cyllid o'r wythnos ganlynol.**
- **Rhaid i chi gymeradwyo cytundebau erbyn y dydd Iau bob wythnos er mwyn i'r cytundeb hwnnw ymddangos ar eich hawliad ar y dydd Gwener.**
- **Mae modd i blant fanteisio o hyd ar y cynnig yn ystod y gwyliau, hyd yn oed os ydyn nhw'n mynychu'r ysgol llawn amser (hyd at y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd nhw'n 4 oed).**

Cofiwch, os byddwch chi'n cynnal unrhyw achlysuron, byddwn ni'n hapus i ddod i siarad yn uniongyrchol â rhieni. Hefyd, os ydych chi am i unrhyw bosteri neu daflenni gael eu harddangos yn eich lleoliad, rhowch wybod i ni a bydd modd i ni eu hanfon nhw atoch chi.

# ADY

**Mae'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn cynnig yr achlysuron hyfforddi a chymorth gydag ADY canlynol dros y flwyddyn academaidd yma. E-bostiwch CynaMyn@rctcbc.gov.uk i gadw eich lle.**

Oes gyda chi unrhyw ymholiadau am yr hyfforddiant? E-bostiwch **Suzanne.Davidson@rctcbc.gov.uk** neu **Luci.Hooper@rctcbc.gov.uk** cyn cadw lle.

| Hyfforddiant | Cynnwys | Ar gyfer pwy? | Lleoliad | Dyddiad ac Amser |
|---|---|---|---|---|
| **Sesiynau galw Heibio ADY** | Gofynnwch unrhyw gwestiynau cyffredinol am ADY, er enghraifft atgyfeiriadau, ymateb graddedig, gwaith papur, strategaethau neu gyngor.<br>Bydd pob sesiwn yn cael ei chynnal rhwng 9.30am ac 11.00am ac mae croeso i chi alw heibio a gadael bryd bynnag yn ystod y sesiwn. Unwaith ichi gadw lle, bydd dolenni'n cael eu hanfon atoch chi. | Cydlynwyr ADY / staff y lleoliad | TEAMS ar-lein | **Tymor yr Hydref 2024:**<br>25.10.2024<br>29.11.2024<br>**Tymor y Gwanwyn 2025:**<br>31.01.2025<br>21.02.2025<br>28.03.2025<br>**Tymor yr Haf 2025:**<br>02.05.2025<br>06.06.2025<br>11.07.2025 |
| **Fforwm Cydlynwyr ADY y Blynyddoedd Cynnar** | Bydd pob Fforwm Cydlynwyr ADY yn cynnwys elfennau megis rhannu arfer da, hyfforddiant Bitesize, y newyddion diweddaraf am ADY a sesiynau holi ac ateb. Bydd y Gwasanaeth Addysg, y Garfan Dechrau'n Deg, y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn y sesiynau yma. | Cydlynwyr ADY | TEAMS ar-lein | **Tymor yr Hydref 2024:**<br>03.10.2024 (1.30-2.30)<br>05.12.2024 (1.30-2.30)<br>**Tymor y Gwanwyn 2025:**<br>06.02.2025 (1.30-2.30)<br>03.04.2025 (1.30-2.30)<br>**Tymor yr Haf 2025:**<br>22.05.2025 (1.30-2.30)<br>26.06.2025 (1.30-2.30) |
| **Hyfforddiant Cynllun Chwarae** | Byddwn ni'n esbonio proses ysgrifennu cynllun chwarae effeithiol, beth yw targed da, sut i weithredu'r targedau a sut i adolygu a gwerthuso mewn modd effeithiol. Byddwn ni'n trafod meysydd megis derbyn cyngor gan weithwyr proffesiynol eraill a sut bydd Cynllun Chwarae yn bwydo i mewn i ymateb graddedig ar gyfer plentyn. Byddwn ni hefyd yn trafod beth i'w nodi mewn cynllun chwarae a phwrpas proffil Amdanaf i. | Holl staff y lleoliad | TEAMS ar-lein | **Tymor yr Hydref 2024:**<br>16.10.2024 (9.30-11.30) a (6.00-8.00)<br>**Tymor y Gwanwyn 2025:**<br>20.02.2025 (2.00-4.00) a (6.00-8.00) |
| **Proses Atgyfeirio Fforwm y Blynyddoedd Cynnar a'r Ymateb Graddedig** | Bydd yn ymdrin â'r broses a'r ffurflen atgyfeirio ar gyfer Fforwm y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion y Blynyddoedd Cynnar (sydd ddim yn mynychu'r ysgol). Bydd yn cyflwyno'r broses o lenwi'r ffurflen atgyfeirio, y meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni, y dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer atgyfeiriad a phroses Fforwm y Blynyddoedd Cynnar. Byddwn ni hefyd yn trafod defnyddio Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, rhestr wirio ymateb graddedig, a'r hyn sy'n digwydd yn dilyn eich atgyfeiriad i Fforwm y Blynyddoedd Cynnar.<br>Mae modd i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliad gofal plant, neu warchodwyr plant, ddod. Bydd y sesiwn yn fwy addas i Gydlynwyr ADY, ond mae croeso i unrhyw aelod arall o staff hefyd. | Holl staff y lleoliad | TEAMS ar-lein | **Tymor yr Hydref 2024:**<br>22.10.2024 (1.00-3.00)<br>**Tymor y Gwanwyn 2025:**<br>05.03.2025 (9.00-11.00) |

ALN

## E-bostiwch CynaMyn@rctcbc.gov.uk i gadw eich lle.

Oes gyda chi unrhyw ymholiadau am yr hyfforddiant? E-bostiwch **Suzanne.Davidson@rctcbc.gov.uk** neu **Luci.Hooper@rctcbc.gov.uk** cyn cadw lle.

| Hyfforddiant | Cynnwys | Ar gyfer pwy? | Lleoliad | Dyddiad ac Amser |
|---|---|---|---|---|
| **Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn** | Byddwn ni'n trafod gwybodaeth a dealltwriaeth o beth yw Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Pam ei fod yn ddefnyddiol? Sut ydyn ni'n gweithredu Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn? Sut beth yw Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar?<br>Bydd y sesiwn yma'n cynnwys:<br>• gweithio gyda rhieni/gwarcheidwaid<br>• dulliau Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn mwyaf defnyddiol a sut i'w defnyddio'n effeithiol<br>• defnyddio siartiau cyfathrebu<br>• deall y gwahaniaethau rhwng yr hyn sy'n bwysig i/ar gyfer plant<br>• nodi beth sy'n gweithio'n dda/ddim yn gweithio<br>• proffiliau Amdanaf i – beth sy'n gwneud proffil da a beth i'w osgoi. | Pob aelod o staff | TEAMS ar-lein | **Tymor y Gwanwyn 2025:** 11.02.2025 (9.30-11.30), (1.30-3.30) a (6.00-8.00) |
| **Strategaethau ADY** | Yn y sesiynau yma, byddwn ni'n ystyried strategaethau ac ymyriadau cyffredin a defnyddiol ar gyfer plant y Blynyddoedd Cynnar. Byddan nhw'n cynnig cyngor ymarferol a modelu i staff eu defnyddio yn eu lleoliad. Bydd pob sesiwn yn ymdrin â dau ymyriad gwahanol a chaiff pob un o'r 6 ymyriad eu trafod erbyn diwedd y flwyddyn. Rydyn ni'n awgrymu bod pob lleoliad yn mynychu un sesiwn y tymor er mwyn manteisio ar yr ystod lawn o strategaethau sydd ar gael. Bydd dewis o amseroedd a lleoliadau bob tymor. Dyma rai o'r strategaethau cyffredin gaiff eu trafod:<br>• Rhyngweithio Dwys<br>• Amser Bwced<br>• Gemau Rhagweld<br>• Amser Llawr<br>• Gwrthrychau<br>• Delweddau | Pob aelod o staff | Hyfforddiant wyneb-yn-wyneb (lleoliadau i'w cadarnhau) | **Tymor yr Hydref 2025:** 06.11.2024 (9.30-11.30), (1.30-3.30) a (6.00-8.00)<br>**Tymor y Gwanwyn 2025:** 19.03.2025 (9.30-11.30), (1.30-3.30) a (6.00-8.00)<br>**Tymor yr Haf 2025:** 11.06.2025 (9.30-11.30), (1.30-3.30) a (6.00-8.00) |
| **Amgylcheddau Cynhwysol a Darpariaeth Gyffredinol** | Bydd hyn yn ystyried pwysigrwydd cynhwysiant mewn lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar prif ffrwd. Byddwn ni'n trafod y grwpiau gwahanol mewn lleoliadau, a'r newid o ran agweddau a disgwyliadau. Byddwn ni hefyd yn ystyried sut mae modd inni wneud ein darpariaethau'n fwy cynhwysol a sut mae modd gwella ein darpariaeth gyffredinol er mwyn cefnogi grwpiau gwahanol. Bydd awgrymiadau ynghylch pa strategaethau mae modd eu cynnwys mewn ymarfer bob dydd a sut mae modd cyflawni hyn yn eich lleoliad. Sesiwn wyneb-yn-wyneb fydd hon er mwyn inni gael sgwrs werthfawr o ansawdd. | Pob aelod o staff Cydlynwyr ac Arweinwyr ADY | Ystafell Cynon, Canolfan Menter y Cymoedd, Abercynon | **Tymor yr Haf 2025:** 09.07.2025 (9.00-12.00) a (1.00-4.00) |

# Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Mae ein holl e-byst yn cael eu hanfon trwy ddosbarthiad y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd felly cadwch eich cyfrif ar DEWIS yn gyfredol ac yn weithredol, neu byddwch chi'n colli allan ar wybodaeth bwysig oddi wrthon ni. Byddwch chi hefyd yn colli cyfle i hysbysebu **AM DDIM** i rieni sy'n defnyddio cronfa ddata'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i chwilio am ofal plant yn eu hardal leol nhw.

I gofrestru neu fewngofnodi i'ch cyfrif chi, dilynwch y ddolen yma:
**https://www.dewis.cymru/secure/login.aspx**.

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu os oes angen cymorth arnoch chi gyda'ch cyfrif DEWIS, e-bostiwch:
**GwasanaethGwybodaethiDeuluoedd@rctcbc.gov.uk**.




## Facebook

Ymunwch â'n tudalen Facebook i dderbyn y newyddion diweddaraf gan y garfan a phartneriaid eraill.

### I ymuno, ewch i...

**https://www.facebook.com/groups/childcareteamRCT** neu chwiliwch am **'RCT Childcare Team'** yn y cyfleuster chwilio ar Facebook.

**Os dydych chi ddim eisiau derbyn y cylchlythyrau yma rhagor, rhowch wybod i ni ac fe wnawn ni eich tynnu chi oddi ar ein rhestr ddosbarthu.**

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

## Cysylltwch â ni...

**Carfan Datblygu Gofal Plant:**

- **01443 570048**
- **www.rctcbc.gov.uk/carfangofalplant**
- **carfangofalplant@rctcbc.gov.uk**
- **RCT Childcare Team**

**Carfan y Cynnig Gofal Plant:**

- **03000 628628**
- **www.rctcbc.gov.uk/cynniggofalplant**
- **DarparwyrCynnigGofalPlant@rctcbc.gov.uk**